

**Cofnodion Cyngor Cymuned Llangywer
Chwefror 22, 2021**

Presennol: Tyly Roberts, (Cadeirydd), Clwyd Davies, Eleri Jones, Geraint Roberts, Gwyn Roberts, W D Williams, Lis Puw (Clerc)

1. Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd a derbyniwyd ymddiheuriad Emyr Jones.
2. Nid oedd cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda.
3. Derbyniwyd datganiadau o fuddiant mewn ceisiadau cynllunio gan Emyr Jones a Gwyn Roberts. Trafodwyd y ceisiadau hyn gyda gweddill yr aelodau trwy gyfrwng e-bost.
4. Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion 11/1/21 a Chofnodion Pwyllgor Cyllid 2021
5. Adroddiad y Clerc:
 - i. Ymwelodd Anna Williams o Ymddiriedolaeth Natur (Gogledd Cymru) â Mynwent Llangywer heddiw (22/2/21) pryd yr oedd y Cadeirydd a'r Clerc hefyd yn bresennol. Cytunwyd i blannu coed ffrwythau ar waelod y llethr a bydd yr Ymddiriedolaeth yn cyllido hyn. Cytunwyd hefyd ar safle tyfiant gwyllt wrth ochr orllewinol yr eglwys, a bydd hyn yn cael ei ddynodi gyda rhaff ac arwydd yn egluro pam nad ydyw'n cael ei dorri. Sylwodd Ms Williams ar nifer o flodau a phlanhigion, ac fe adnabyddodd rhes o goed pisgwydd, coed digon anarferol. Credir eu bod yno ers tua 25 mlynedd, ond mae rhai wedi ffynnu'n well na'i gilydd. Mae sied yn y coed gydag elor bren yno mewn cyflwr gwael. Cytunwyd i drafod hyn ymhellach pan fyddwn yn gallu cyfarfod yn y neuadd neu allan yn y fynwent. Cytunodd y Clerc i holi'r perchennog (Mr Adcock) a oes elor geffyl yn dal i hongian o'r to yn yr Eglwys, a dywedodd Eleri Jones y byddai'n ceisio cael mwy o wybodaeth gan aelodau teulu Pantmarch gynt.
 - ii. Cyngor Gwynedd: Ymatebodd y Clerc ar ran y cynghorau lleol i ymgynghoriad ar dwristiaeth gynaliadwy yn ardal Yr Wyddfa, gan dynnu sylw at yr angen am reolaeth twristiaeth ym Mhenllyn hefyd.
 - iii. Ceisiadau Cynllunio a gytunwyd arnynt trwy ymgynghoriad e-bost: garej Brynraber; to dros sied slyri fferm Rhiwaedog; mast Maesafallen (Ni chymerodd Emyr Jones a Gwyn Roberts ran yn yr ymgynghoriadau perthnasol iddynt hwy.)
6. Nid oedd adroddiad o Gyngor Gwynedd.
7. Materion Ariannol
 - i. Derbyniwyd gwybodaeth am y sefyllfa ddiweddaraf.
 - ii. Derbyniwyd gwybodaeth fod Chris Ellis yn barod i dorri'r gwaith ar yr un telerau a llynedd. Derbyniwyd y cynnig a gwerthfawrogyd ei waith.

- iii. Ystyriwyd ceisiadau am nawdd ariannol. Bydd cyfle arall yn ystod y flwyddyn i ystyried ceisiadau. Nodwyd y cyfrannwyd £175 ym Mehefin tuag at fesurau lleol i wrthsefyll Covid. Cytunwyd i gyfrannu fel a ganlyn ar hyn o bryd:
 - i. Neuadd Llangywer £650
 - ii. Clybiau Ffermwyr Ifanc Meirionnydd £200
 - iv. Cytunwyd i dalu cyflog y Clerc am y flwyddyn 2020-21.
8. Gohebiaeth (e-bostiwyd): cafwyd trafodaeth ar:
- i. Llywodraeth Cymru: Ymgynghoriad ar Luchio Slei Bach
 - ii. Llywodraeth Cymru Cylch: Llythyr Cymru'r Dyfodol
 - iii. Llywodraeth Cymru: Ymgynghoriad ar y Côt Ymddygiad
 - iv. Cyfoeth Naturiol Cymru: Rhybudd o dorri coed yn Aberhirnant
 - v. Cyngor Tref Nefyn: Llythyr parod at Julie James AS parthed dwysedd tai gwyliau – cytunwyd i anfon y llythyr.
 - vi. Cyngor Tref Y Bermo: nodwyd derbyn cyflwyniad o ddadl yn erbyn codi trethi ar dai gwyliau
9. Materion lleol i sylw Cyngor Gwynedd:
- i. Llanast ar hyd y ffordd o ganlyniad i waith blêr wrth wagio biniau i'r lori ail-gylchu; *deallir bod y drefn newydd yn dod i rym yn Ebrill.*
 - ii. Twll yn y ffordd ar ôl y grid gwartheg fyny Cwm y Glyn gyda'r posibilrwydd y gallai cerbyd fynd dros yr ochr. *Dyweddod y Cyngorydd y byddai'n edrych mewn i'r mater.*
 - iii. Sylwyd ar blymen o rew dros y ffordd ar ôl troi fyny o Tŷ'n Gwrych a chyn cyrraedd Tŷ Mawr. Mae posibilrwydd fod peipen ddŵr wedi torri yno.
10. Dyddiad y cyfarfod nesaf: 10/5/21 (Cyfarfod Blynnyddol)